

Rhybudd o Benderfyniadau **Cyfarfod y Cabinet** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar **Ddydd Mawrth, 23 Ionawr 2024**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5.00pm Dydd Iau, 25 Ionawr 2024. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unrhyw benderfyniad i mewn yw 5.00pm Dydd Iau, 1 Chwefror 2024 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) Dydd Gwener, 2 Chwefror 2024.

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Bryan Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Catrin M S. Davies, Clive Davies, Gareth Davies, Keith Henson, Wyn Thomas, Matthew Vaux ac Alun Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Euros Davies, Ifan Davies, Marc Davies, Endaf Edwards, Elizabeth Evans, Eryl Evans, Gwyn Wigley Evans, Keith Evans, Raymond Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Hugh Hughes, Ceris Jones, Maldwyn Lewis, Gareth Lloyd a Caryl Roberts.

(10.00am- 12.52pm)

**141 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd Barry Rees, Cyfarwyddwr Corfforaethol am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod oherwydd ymrwymadau eraill y Cyngor.

**142 Materion Personol**

- i. Diolchwyd i'r staff am eu hymdrechion i helpu pawb yr effeithiwyd arnynt gan y tywydd gwael yn ystod yr wythnosau diwethaf.
- ii. Estynnwyd llongyfarchiadau i Stevie Williams ar ei lwyddiant yn y 'Tour Down Under' yn Awstralia.
- iii. Estynnwyd llongyfarchiadau hefyd i'r Dr Rhodri Llwyd Morgan ar ei benodiad yn Brif Weithredwr Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
- iv. Estynnwyd y dymuniadau gorau i Sulwyn Jones, Gweithiwr Amgylcheddol ar ei ymdddeoliad yn dilyn 44 mlynedd o wasanaeth i'r awdurdod lleol.

**143 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

Datganodd y Cynghorydd Keith Henson fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas â Hen Ysgol Gynradd Cribyn yn eitem 149 a gadawodd y cyfarfod pan oedd y mater hwnnw'n cael ei drafod.

**144 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**

Cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod Arbennig y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Rhagfyr 2023 yn gywir.

Materion yn codi: Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.

**145 Unrhyw ddeisebau a dderbyniwyd**

Dim.

**146 Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

Dim.

- 147 **Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda**  
Dim.
- 148 **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Cyllideb Refeniw 2024/25 a'r rhaglen Gyfalaf Amlflwyddyn**  
PENDERFYNIAD:
1. Nodi bod y codiad arfaethedig yn ardoll Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru yn debygol o olygu pwysau costau o £497k ar Gyllideb 24/25 y Cyngor (sy'n cyfateb i gynnydd o oddeutu 1.1% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer trigolion Ceredigion).
  2. Cynnig y Cabinet parthed Premiymau Treth y Cyngor yw:
    - a) O 01/04/24 ymlaen, y bydd 25% o'r holl arian a godir o bremiymau Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor (net ar ôl addaliadau/ costau Treth y Cyngor) yn cael ei neilltuo a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol, ar yr amod na fydd lefel y cyllid sy'n cael ei ddal yn y Cynllun Tai Cymunedol yn mynd y tu hwnt i £2.0m, a bod unrhyw gyllid y tu hwnt i hyn mewn blwyddyn benodol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r gyllideb gyffredinol.
    - b) O 01/04/24 ymlaen, y bydd 75% o'r holl arian a godir o bremiymau Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor (net ar ôl addaliadau/ costau Treth y Cyngor) yn cael ei gadw a'i ddefnyddio i gefnogi'r gyllideb gyffredinol, er mwyn lleihau baich Treth y Cyngor ar drigolion Ceredigion.
  3. Nodi mai Gofyniad Cyllideb ddrafft 24/25 ar hyn o bryd yw £192.470m.
  4. Nodi y byddai Gofyniad Cyllideb drafft 24/25 yn arwain at gynnydd yn Nhreth y Cyngor (o ran cyfran Cyngor Sir Ceredigion) o £4.15 yr wythnos (£17.99 y mis) ar gyfer eiddo Band D.
  5. Pan gyhoeddir Setliad Terfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 24/25:
    - a) Bod gwerth unrhyw grantiau penodol pellach a drosglwyddir i'r Grant Cynnal Refeniw yn cael eu cyfeirio i gyllideb y Gwasanaeth perthnasol, lle bo hynny'n briodol.
    - b) Y dylai unrhyw newidiadau penodol eraill dargedu'r Gwasanaeth(au) sy'n cael eu heffeithio yn uniongyrchol, pan fo hynny'n briodol.
    - c) Y rhoddir sylw i unrhyw newid arall i'r AEF drwy wneud addasiad i gyllideb y Grŵp Arweiniol.
  6. Nodi y byddai'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn cael ei diweddarau ymhellach ar ôl Cyllideb y Canghellor yn y Gwanwyn, ar 06/03/24.
  7. Nodi rhaglen arfaethedig y Ffioedd a Thaliadau drafft fel y nodir yn Atodiad 8, ystyrir y rhain yn ffurfiol gan y Cabinet ar 20/02/24.
  8. Argymhell bod y Rhaglen Gyfalaf Amlflwyddyn, fel y'i nodir yn Atodiad 10, yn cael ei chymeradwyo.
  9. Argymhell bod y Strategaeth Gyfalaf, fel y'i nodir yn Atodiad 11, yn cael ei chymeradwyo.
  10. Nodi y dylid ystyried unrhyw opsiynau newydd neu amgen ar gyfer Cyllideb ddrafft 24/25 yn ystod y cyfarfodydd i Graffu ar y Gyllideb ac y byddai angen digon o amser ymlaen llaw ar y Swyddog Adran 151 i fodelu'n llawn unrhyw effeithiau posib ac i roi barn ar gadernid unrhyw gynnig.
  11. Cyfeirio'r adroddiad Cabinet hwn at sylw'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu fel y gall y Cabinet ystyried eu hadborth ffurfiol nhw ar 20/02/24, fel y gall

y Cabinet wedyn gyflwyno'u hargymhellion terfynol nhw ar Ofyniad Cyllideb 24/25 a maint y cynnydd yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 24/25 i'r Cyngor Llawn ar 29/02/24.

*Y rheswm dros y penderfyniad:*

Fel bod y gwaith o baratoi Cyllideb 2023/24 yn gallu mynd rhagddo.

**149 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio ynghylch y Bwriad i werthu asedau**

**PENDERFYNIAD:**

1. Cymeradwyo'r egwyddor o waredu/ gwerthu'r asedau canlynol:
  - i. Hen Ysgol Gynradd Cribyn
  - ii. Hen Ysgol Beulah
  - iii. Hen Ysgol Gynradd Cilcennin
2. Gohirio'r egwyddor o waredu/gwerthu Hen Waith Trin Carthion, Pontgarreg er mwyn caniatáu ystyriaeth bellach.

*Y rheswm dros y penderfyniad:*

Creu derbyniadau cyfalaf o asedau nad oes mo'u hangen mwyach.

**150 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar ynghylch Ail-gomisiynu'r Grant Cymorth Tai**

**PENDERFYNIAD:**

Cymeradwyo:

- 1) yr egwyddor o ddyfarnu contract Cymorth TA Brys Grant Cymorth Tai
- 2) Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i bob un o'r canlynol ar y cyd i gymeradwyo dyfarnu/cymeradwyo'r cytundeb i'r tendr llwyddiannus:
  - Aelod Cabinet dros Bartneriaethau, Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd
  - Aelod Cabinet, Cyllid a Chaffael
  - Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Cyllid a Chaffael (a Swyddog Adran 151)
  - Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Porth Cymorth Cynnar

*Y rheswm dros y penderfyniad:*

Sicrhau y gall y Cyngor ddyfarnu contract Grant Cymorth Tai ar gyfer Cymorth Llety Dros Dro Brys mewn modd amserol a sicrhau bod y darparwr yn gallu ymgymryd â'r contract newydd o 1 Ebrill 2024.

**151 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brysgan y Cabinet**

Dim.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar  
20 Chwefror 2024**

**Cadeirydd:** \_\_\_\_\_

**Dyddiad:** \_\_\_\_\_